

# DINAS A SIR ABERTAW

## ADRODDIAD BLYNYDDOL PARCIO AR GYFER 2009 - 2010

### 1. Rhagarweiniad

- 1.1 Ar 1 Medi 2008, dynododd Llywodraeth Cynulliad Cymru Ddinas a Sir Abertawe'n Ardal Gorfodi Sifil ar gyfer Tramgwyddau Parcio ac Ardal Gorfodi Arbennig. Tynnwyd y cyfrifoldeb dros orfodi tramgwyddau parcio 'ar y stryd' oddi wrth Heddlu De Cymru gan roi'r cyfrifoldeb ar y cyngor.
- 1.2 Mae'r ddogfen hon yn adrodd ar berfformiad y gwasanaeth o 1 Ebrill 2009 i 31 Mawrth 2010 h.y. y flwyddyn ariannol 2009/10. Mae'r adroddiad yn nodi perfformiad gweithredoedd gorfodi mewn meysydd parcio ac ar y stryd.
- 1.3 Mae'r cyngor wedi bod yn gyfrifol am orfodi tramgwyddau parcio yn ei feysydd parcio am sawl blwyddyn. Aethpwyd i'r afael â thramgwyddau drwy hysbysiadau o dâl ychwanegol gwerth £40 (wedi'u gostwng i £20 o'u talu o fewn 14 diwrnod). I bobl nad oeddent yn talu'r ddirwy, byddent yn mynd gerbron llys yr ynadon. Y gosb a roddwyd gan ynadon oedd dirwyon lle nad oedd y cyngor yn derbyn unrhyw dâl oherwydd casglwyd yr holl ddirwyon a'u cadw yn adran yr Arglwydd Ganghellor.
- 1.4 Ar ôl cyflwyno Gorfodi Parcio Sifil, cafwyd nifer o newidiadau i orfodi rheoliadau parcio ar y stryd ac oddi ar y stryd drwy Ddinas a Sir Abertawe:  
Rydym yn gweithio o dan y pwerau a geir yn Rhan 6 Deddf Rheoli Traffig 2004 ac o'r herwydd, cafwyd y newidiadau canlynol i weithrediadau parcio yn Dinas a Sir Abertawe:

Cynhelir y rheoliadau gorfodi parcio gan Swyddogion Gorfodi Sifil (CEO).

Rydym hefyd yn gallu cyflwyno Hysbysiadau o Dâl Cosb i bobl sydd wedi parcio ar groesfannau i gerddwyr (cyn hyn, dim ond yr heddlu oedd yn gallu gwneud hyn).

Nid yw Hysbysiadau o Dâl Cosb bellach yn £60 ond;

- £70 (£35 os caiff ei dalu o fewn 14 diwrnod) am dramgwyddau mwy difrifol fel parcio mewn arhosfan bysus, lle parcio i bobl anabl neu ar linellau melyn dwbl.

- £50 (£25 os caiff ei dalu o fewn 14 diwrnod) am dramgwyddau llai difrifol fel aros yn rhy hir mewn lle talu ac arddangos.

Rhaid i ni ymateb i 'sylwadau ffurfiol' o fewn 56 diwrnod. Rhaid i ni anelu at ymateb i heriau o fewn 14 diwrnod.

Daeth y 'Gwasanaeth Dyfarnu Parcio Cenedlaethol' yn 'Dribiwnlys Cosbau Traffig'. Bellach gall dyfarnwyr parcio gyfeirio achosion yn ôl i'r cyngor lle credir y dylem ailystyried ein penderfyniad wrth orfodi Hysbysiad o Dâl Cosb.

Mae'r Ddeddf yn rhoi grym i Swyddogion Gorfodi Sifil gyflwyno Hysbysiadau o Dâl Cosb am barcio dwbl a pharcio ar gyrbau isel. Mae'r Llywodraeth bellach wedi hepgor yr angen am Orchymyn Rheoleiddio Traffig diwygiedig ac arwyddion ar y stryd sy'n hysbysu o'r cyfyngiad, sy'n lleihau cost gorfodi'r tramgwyddau hyn.

1.5 Mae pwerau eraill a roddir gan y grant yn caniatáu i ni wneud y canlynol;

Cyflwyno Hysbysiad o Dâl Cosb drwy'r post. Rydym yn ceisio cyflwyno pob Hysbysiad o Dâl Cosb drwy ei roi ar sgrin flaen y car neu ei roi i'r gyrrwr ond rydym yn cadw'r hawl i gyflwyno hysbysiadau drwy'r post pan fydd ymddygiad y gyrrwr tuag at y Swyddogion Gorfodi Sifil yn atal y swyddog rhag ei gyflwyno yn y ffordd hon.

1.6 Roedd cyflwyno Pwerau Gorfodi Sifil yn un sylweddol a oedd yn gofyn am gaffael pecyn meddalwedd i reoli'r broses hysbysiadau o dâl cosb. Nid yn unig mae hyn yn cynnwys talu ond hefyd y broses apeliadau lawn hyd at a chan gynnwys paratoi ffeiliau apêl ar gyfer dyfarnwr a hefyd geisiadau i'r Ganolfan Gorfodi Traffig ar gyfer gwarantau atafael dyledion.

1.7 Roedd hyfforddi staff cyn rhoi'r ddeddf ar waith yn hanfodol i lwyddiant y prosiect ac er mwyn i Swyddogion Gorfodi Sifil fod yn gwbl ymwybodol o'r amgylchiadau lle gallent gyflwyno Hysbysiadau o Dâl Cosb ar gyfer tramgwyddau newydd megis parcio ar groesfan i gerddwyr yn ogystal â'u galluogi i nodi Hysbysiadau o Dâl Cosb uwch ac is. Cafodd pedwar warden traffig a gyflogwyd gan Heddlu De Cymru eu trosglwyddo i'r cyngor ynghyd ag 16 aelod o staff a oedd yn cael eu cyflogi gan yr Adran Meysydd Parcio yn ennill cymwysterau City and Guilds mewn gorfodi sifil a datrys anghydfodau rheoliadau parcio ym mis Awst 2008.

1.8 Ym mis Ebrill 2009, recriwtiwyd pum swyddog arall i esgyn y sefydliad i'r lefelau a gymeradwywyd gan y cyngor yn 2006. Derbyniodd y swyddogion hyn yr un hyfforddiant â'r rhai y'u hyfforddwyd ym mis Awst 2008.


1.9 Mae hyfforddiant mewnol yn cael ei ddatblygu er mwyn i arbenigwyr yn y cyngor megis y Swyddogion Gorfodi Tacsis gael pwerau i gyflwyno Hysbysiad o Dâl Cosb i gerbydau sydd wedi'u parcio yn y safleoedd tacsis.

- 1.8 Cafodd swyddogion y cyngor, sy'n mynd i'r afael ag apeliadau, hyfforddiant ar amserau ymateb statudol a sail apêl yn ogystal â'r holl newidiadau eraill sy'n gysylltiedig â'r Ddeddf Rheoli Traffig ac arweiniad terfynol a ysgrifennwyd ynghylch sail apêl a'r disgresiwn rydym yn ei ddefnyddio ac mae ar gael ar wefan y cyngor.
- 1.9 Mae'r Ddeddf Rheoli Traffig yn gofyn i ni gyhoeddi Adroddiad Blynyddol er tryloywder ac i hysbysu'r cyhoedd o nodau'r gwasanaeth a pherfformiad y cyngor wrth fodloni'r amcanion hyn. Rydym yn deall bod gwneud cynnydd ar y materion pwysig o ddydd i ddydd yn gyfrifoldeb ar yr adran parcio a byddwn ond yn cyflawni hyn drwy ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill a gwrando ar eu barn. Nod yr adroddiad hwn yw tynnu sylw at rai o'r materion hyn ynghyd â gwaith y gwasanaeth wrth gydbwysu anghenion preswylwyr, ymwelwyr, busnesau, defnyddwyr cludiant cyhoeddus a'r gymuned ehangach.

## **2. Parcio Oddi ar y Stryd**

- 2.1 Mae gan Ddinas a Sir Abertawe gyfanswm o 53 o feysydd parcio wedi'u rhestru yng Ngorchymyn Cyfunol Dinas a Sir Abertawe (Mannau Parcio oddi ar y Stryd) (Talu ac Arddangos) 2008.
- 2.2 Mae tri maes parcio aml-lawr yng nghanol y ddinas lle mae'n rhaid talu wrth adael, ond mae'r meysydd parcio eraill yn rhai talu ac arddangos. Yn ogystal, mae tri maes parcio Parcio a Theithio ar gyrion y ddinas. Mae'r rhain hefyd yn feysydd parcio talu ac arddangos.
- 2.3 Roedd yr Adran Gwasanaethau Parcio, yn ogystal â'r rôl orfodi, wedi cadw eu cyfrifoldebau dros oruchwylio meysydd parcio. Mae presenoldeb staff parhaol ym meysydd parcio aml-lawr y Cwadrant, Dewi Sant, a'r Stryd Fawr a hefyd faes parcio gorchuddiedig Teras Clarence.
- 2.4 Rydym hefyd yn gyfrifol am gasglu a chymodi arian o'r 86 o beiriannau talu ac arddangos ar draws ardal y cyngor.
- 2.5 Mae taliadau meysydd parcio'n amrywio a dynodir meysydd parcio'n rhai 'arhosiad hir', 'arhosiad byr', 'blaendraeth' a 'maestrefol'. Yn ogystal, mae tri maes parcio ar ddeg am ddim. Mae dau faes parcio ar gyfer deiliaid tocyn tymor yn unig ac mae un ar gyfer deiliaid bathodyn glas yn unig.
- 2.6 Yn ystod y cyfnod adrodd, cyflwynwyd cyfanswm o 6,510 o hysbysiadau o dâl cosb o ran tramgwyddau a ganfuwyd yn ein meysydd parcio. Dengys siart 1 yr ystadegau misol ac mae tabl 1 isod yn dangos y tramgwyddau amrywiol ac, fel y gwelir, mae'r nifer uchaf o dramgwyddau yn ymwneud â pheidio ag arddangos tocyn parcio'n glir.

## Siart 1



Tabl 1

Côd y Tramgwydd	Tramgwydd	Nifer yr Hysbysiadau o Dâl Cosb a gyflwynwyd
70	Parcio mewn ardal lwytho	2
80	Wedi parcio am gyfnod hwy na'r hyn a ganiateir	24
81	Wedi parcio mewn ardal gyfyngedig	38
82	Wedi parcio ar ôl yr amser y talwyd amdano	1,404
83	Wedi parcio heb arddangos tocyn yn glir	4,039
84	Ychwanegu arian at y tocyn	11
85	Wedi parcio mewn lle trwydded	631
86	Wedi parcio y tu hwnt i farciau'r gilfach	151
87	Wedi parcio mewn lle i bobl anabl heb fathodyn	209
92	Rhwystro	1
	<b>Cyfanswm</b>	<b>6,510</b>


- 2.7 Yn ystod y 12 mis blaenorol, cafwyd cyfanswm o 1,021 o hysbysiadau o dâl ychwanegol a 5978 o hysbysiadau o dâl cosb (cyfanswm o 6999) am dramgwyddau oddi ar y stryd. Mae'n amlwg o'r ffigurau bod y cyfrifoldeb am orfodi ar dramgwyddau ar y stryd wedi golygu talu llai o sylw i dramgwyddau oddi ar y stryd, fodd bynnag, mae'r ddwy flynedd yn cynrychioli cynnydd sylweddol mewn gorfodi yn ystod y flwyddyn ariannol 2007-2008 pan gyflwynwyd 3,434 hysbysiadau o dâl cosb yn unig.

- 2.8 Mae cyflwyno gorfodi sifil ynghyd â staff ychwanegol wedi cynyddu'r ffigurau misol o 286 yn y flwyddyn ariannol 2007-2008 i 542 am flwyddyn weithredol gyntaf y drefn gorfodi parcio.

### 3. Parcio ar y Stryd

- 3.1 Yn ogystal â thopograffeg a maint Dinas a Sir Abertawe, mae'r amrywiaeth o orchmynion parcio sydd ar waith yn creu her go iawn i staff gorfodi wrth reoli parcio ar y stryd.
- 3.2 Mae gweithrediadau parcio yn Ninas a Sir Abertawe yn cynnwys 3 pharth rheoli parcio, Sandfields, St Thomas, y Parc Menter, nifer o gynlluniau parcio i breswylwyr â thrwyddedau, manau parcio â chyfyngiadau amser, cilfachau llwytho ac anabl, cilfachau talu ac arddangos yn ogystal â'r nifer o linellau melyn sengl a dwbl.
- 3.3 Yn ystod y cyfnod adrodd, cyflwynwyd cyfanswm o 20,352 o hysbysiadau o dâl cosb ar y stryd. Dengys siart 2 isod y gyfradd gyflwyno fisol ar gyfer y cyfnod adrodd.

Siart 2



- 3.6 Mae tabl 2 isod yn nodi'r amrywiaeth o dramgwyddau a gellir gweld bod y nifer mwyaf o dramgwyddau yn ymwneud â pharcio ar strydoedd cyfyngedig (h.y. llinellau melyn dwbl) a pharcio mewn cilfachau preswylwyr heb ddangos trwydded.

Tabl 2

Côd y Tramgwydd	Tramgwydd	Nifer yr Hysbysiadau o Dâl Cosb a gyflwynwyd
01	Parcio ar ffordd gyfyngedig	4,978
02	Llwytho mewn stryd gyfyngedig	2402
05	Wedi parcio ar ôl yr amser y talwyd amdano	55
06	Wedi parcio heb arddangos tocyn talu ac arddangos neu daleb yn glir	88
12	Wedi parcio mewn cilfach breswylwyr	4,223
16	Wedi parcio mewn lle trwydded	78
19	Wedi parcio mewn cilfach breswylwyr neu wedi'i rhannu yn arddangos tocyn annilys	147
21	Wedi parcio mewn cilfach ohriedig	221
22	Wedi ailbarcio o fewn amser gwaharddedig	3
23	Dosbarth anghywir o gerbyd	106
24	Ddim wedi parcio'n gywir	25
25	Wedi parcio mewn cilfach lwytho	2,648
26	Parcio dwbl	44
30	Wedi parcio am gyfnod hwy na'r hyn a ganiateir	2,028
40	Parcio i bobl anabl	658
42	Cerbydau'r heddlu	1
45	Safle tacsis	306
46	Clirffordd	2,075
47	Arhosfan bysus cyfyngedig	174
48	Ardal ysgol gyfyngedig	27
49	Llwybr neu lôn feicio	5
99	Croesfan i gerddwyr	64
	<b>Cyfanswm</b>	<b>20,352</b>

3.7 Yn ogystal â'r manylion uchod, cyflwynwyd 652 o rybuddion o ran tramgwyddau parcio ar y stryd. Cyflwynir rhybuddion gan swyddogion pan na ellir gorfodi gorchymyn traffig oherwydd problemau arwyddion neu linellau. Cyflwynir rhybuddion i atgoffa'r gyrrwr o'i gyfrifoldebau a hefyd i ddangos i'r cyhoedd neu breswylwyr bod swyddogion yn patrolio yn yr ardal.

- 3.8 Mewn blynyddoedd blaenorol, cyflwynodd wardeiniaid traffig a swyddogion yr heddlu yn Abertawe y nifer canlynol o docynnau cosb benodol (gweler tabl 3 isod). Rhoddwyd y rhain yn bennaf oherwydd materion parcio ond roeddent hefyd yn cynnwys tramgwyddau eraill e.e. rhwystro a rhai tramgwyddau traffig sy'n symud.

Tabl 3

Cyfnod cyflwyno	Nifer a gyflwynwyd
2007 – 2008	14,941
Ebrill – Awst 2008	4,790

#### 4. Gohebiaeth

- 4.1 Hawl pob gyrrwr neu berchennog yw'r hawl i herio dilysrwydd hysbysiad o dâl cosb neu i gyflwyno rhesymau am pam na ddylai orfod talu'r hysbysiad o dâl cosb. Mae'r broses herio/apelio yn y ddeddfwriaeth a cheir gwybodaeth am y broses hon ar wefan y cyngor.
- 4.2 Mae'r arweiniad clir a defnyddiol ar ddiddymiadau'n sicrhau bod ein tîm swyddfa gefn, sy'n cynnwys goruchwyliwr a chwe swydd amser llawn ac un rhan-amser, yn mynd i'r afael â'r holl ohebiaeth sy'n dod i mewn ffordd deg a thryloyw.
- 4.3 Mae'n rhwymedigaeth gyfreithiol arnom i ystyried ac ymateb i ohebiaeth ar unrhyw gam o'r broses ac mae'n ofynnol, yn ôl y ddeddfwriaeth, i anfon ymatebion yn amserol. Y gofyniad cyfreithiol yw ymateb o fewn 56 o ddiwrnodau ond rydym yn anelu at ymateb i heriau o fewn 12 diwrnod ac, ar gyfartaledd, rydym wedi cyflawni hyn drwy gydol y cyfnod adrodd.
- 4.4 Ceir tri cham penodol i unrhyw her neu apêl:
- I gychwyn ar ôl derbyn hysbysiad o dâl cosb, gall modurwr wneud sylwadau anffurfiol (Cyn-rybudd i'r Perchennog). Os gwneir y rhain o fewn 14 diwrnod o'r dyddiad cyflwyno, gwaharddir cyfnod y gostyngiad ac fe'i hailgynigir yn llawn os caiff y sylwadau eu gwrthod.
  - Gall y perchennog neu'r gyrrwr gyflwyno her ffurfiol ar ôl cyflwyno'r hysbysiad o rybudd i'r perchennog. Cyflwynir y rhybudd i'r perchennog o leiaf 28 niwrnod ar ôl cyflwyno'r PCN. Nodir yr her fel Post NTO.
  - Y trydydd cam yw apêl i'r Tribiwnlys Apeliadau Traffig. Mae'r tribiwnlys yn cyflogi cyfreithwyr annibynnol sy'n dyfarnu ar achosion sy'n symud i'r cam hwn. Gallwn benderfynu ar achosion drwy wrandawriad personol, gwrandawriad dros y ffôn neu ar y ddogfen a roddir.
- 4.5 Mae tabl 4 isod yn nodi nifer yr eitemau o ohebiaeth a dderbyniwyd sy'n ymwneud â thâl cosb 'oddi ar y stryd' a thabl 5 nifer yr eitemau o ohebiaeth a dderbyniwyd sy'n ymwneud â hysbysiaidau o dâl cosb ar y stryd. Mae'r tabl yn nodi'r heriau ar

gamau gwahanol o'r heriau hyn a hefyd yn tynnu sylw at y canran yn erbyn y rhai a gyflwynwyd:

Tabl 4

Gohebiaeth	Nifer	2006/7
Cyn-rybudd i'r Perchennog	1.761	27%
Ôl-rybudd i'r Perchennog	332	5%
Ôl-dystysgrif Tâl	47	.7%

Tabl 5

Gohebiaeth	Nifer	2006/7
Cyn-rybudd i'r Perchennog	4390	22%
Ôl-rybudd i'r Perchennog	1292	6%
Ôl-dystysgrif Tâl	220	1%

- 4.6 Er bod y ffigurau yn nhabl 4 a 5 yn ymwneud â'r ohebiaeth a dderbynnir, mae'r swyddfa gefn hefyd yn crynhoi nifer mawr o ohebiaeth a anfonir i berchnogion cerbydau sydd wedi methu ag ymateb i'r hysbysiadau o dâl cosb.
- 4.7 Yn ystod y cyfnod adrodd, mae'r swyddfa gefn wedi anfon 27,143 o eitemau o ohebiaeth.
- 4.8 Yn ogystal â hyn, paratowyd 84 o ffeiliau achos ar gyfer Tribiwnlys Apeliadau Traffig. Mae paratoi pob un o'r ffeiliau tystiolaeth hyn yn cymryd llawer o amser oherwydd bod yn rhaid archwilio'r holl ddogfennau sy'n ymwneud â'r achos i weld a ydynt yn ddilys ynghyd â chyflwyniad llawn gyda dadleuon sy'n cefnogi achos y cyngor.

## 5. Adrodd Cyllidebol

- 5.1 Mae'r gyllideb CPE yn cynnwys incwm a geir o dalu ac arddangos a Hysbysiadau o Dâl Cosb. Dengys tabl 6 yr incwm o'r ffynonellau hyn. Mae'r incwm a geir o daliadau ar y stryd a gorfodi ar y stryd ac oddi ar y stryd yn destun cyfyngiadau a orfodir gan Is-adran 55 Deddf Rheoleiddio Traffig 1984, fel y'i diwygiwyd o fis Hydref 2004 gan Is-adran 95 Deddf Rheoli Traffig 2004 a Rheoliad 10 Rheoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio 2008 (Darpariaethau Cyffredinol) (Cymru) (Rhif 2).
- 5.2 Yn ôl isadran 2 deddf 1984;

*(2) Ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol, gwneir yn iawn am unrhyw ddiffyg yn y cyfrif o'r [gronfa gyffredinol] [neu, yng Nghymru, cronfa'r cyngor], ac (yn amodol ar isadran (3) isod) caiff unrhyw warged ei ychwanegu at bob un o'r dibenion a nodir yn isadran (4) isod neu unrhyw un ohonynt ac, i'r graddau na chaiff ei ychwanegu,*



*fe'i defnyddir i gynnal prosiect penodol sy'n rhan o'r dibenion hynny a pharheir a hyn nes gorffen ei gyflawni.*

Mae'r rhan hon o'r ddeddfwriaeth yn clustnodi unrhyw warged ar gyfer dibenion penodol, gan gynnwys darparu neu gynnal parcio oddi ar y stryd, gwella priffyrdd a materion amgylcheddol.

Tabl 6

<b>Ffynhonnell Incwm</b>	<b>Incwm</b>
Hysbysiadau o dâl cosb: Ar y Stryd	£642,376
Hysbysiadau o dâl cosb: Oddi ar y Stryd	£164,082
Talu ac Arddangos Stryd Plymouth	£2,644
Talu ac Arddangos Stryd Rhydychen	£3,909
<b>Cyfanswm</b>	<b>£813,011</b>

- 5.3 Rhestrir isod y gwariant i'w osod yn erbyn taliadau ar y stryd ac oddi ar y stryd o hysbysiadau o dâl cosb o ran tramgwyddau ar y stryd yn nhabl 7.

Tabl 7

<b>Gwariant</b>	<b>Ar y Stryd</b>
Costau cyflogaeth	£513,929
Costau/Rhent Eiddo	£32,443
Cludiant	£9,307
Cyflenwadau a Gwasanaethau	£516
Taliadau Cardiau Gwasanaethau Ariannol	£8,730
CLG a Dyrannu Rheolwyr	£38,530
Ymgynghoriaeth TEC, TPT, DVLA	£29,378
<b>Cyfanswm</b>	<b>£632,833</b>

- 5.4 Felly cafwyd gwarged o £180,178.

- 5.5 Fel a nodwyd ym mharagraff 5.1, mae'n rhaid defnyddio unrhyw warged at ddibenion penodol. Yn ystod y cyfnod adrodd, roedd y tri chynllun Parcio a Theithio a weithredir gan y cyngor wedi colli £95,962. Yn ôl is-adran 4B Deddf 1984:

*'talw costau'r awdurdod lleol yn llawn, neu'n rhannol, i ddarparu a chynnal a chadw [mannau parcio oddi ar y stryd, boed yn yr awyr agored neu dan do;]'*

- 5.6 Mae meysydd parcio Parcio a Theithio yn darparu dewis pwysig i fodurwyr sy'n ymweld â'r ddinas unwaith neu'n rheolaidd. Mae lleihau llif y traffig i ganol y ddinas nid yn unig yn cael effaith ar dagfeydd ond hefyd yn lleihau lefelau llygredd sy'n anodd eu rheoli ar lwybrau prifwythiennol i ganol y ddinas ac ohoni. Mae Parcio a Theithio hefyd yn cefnogi'r gymuned fusnes drwy ddarparu maes parcio fforddiadwy i weithwyr a siopwyr yng nghanol y ddinas. Felly mae gofyniad i sicrhau bod gweithredoedd y gwasanaethau gwerthfawr hyn yn parhau.
- 5.7 Yn ystod y flwyddyn ariannol 2008/09, cafwyd diffyg o £357,557 yng nghyllideb meysydd parcio. Cafwyd y diffyg hwn oherwydd costau sefydlu gorfodi parcio sifil h.y. costau ymgynghoriaeth ar gyfer adolygu'r gorchmynion rheoleiddio traffig a hysbysebu'r diwygiadau a'r arwyddion a'r llinellau ychwanegol.
- 5.8 Yn ôl is-adran 4 Deddf 1984:
- a) gwneud yn dda o [gronfa gyffredinol] neu, yng Nghymru, [cronfa'r cyngor] o unrhyw swm i'r gronfa honno o dan is-adran (2) uchod yn y 4 blynedd yn syth ar ôl y flwyddyn ariannol dan sylw;*
- 5.9 Defnyddiwyd y gwarged o £180,178 yn y lle cyntaf i ariannu rhan o'r gost o ddarparu'r gwasanaeth Parcio a Theithio h.y. £95,962 a chaiff y gweddill, sef £84,216 ei ddychwelyd i gronfeydd y cyngor.

## 6. Data Ystadegol

- 6.1 Nododd atodiad A yr Arweiniad Statudol i Awdurdodau Lleol ar Orfodi Sifil y Tramgwyddau Parcio y data ystadegol ac ariannol y mae'n rhaid i'r awdurdodau gorfodi eu cyflwyno. Mae adran 5 uchod yn nodi'r wybodaeth ariannol. Yn yr adran hon, adroddir am y data ystadegol ar dramgwyddau stryd yn nhabl 8 isod.

Tabl 8

Nifer y PCN a gyflwynwyd	21,006
Nifer y PCN lefel isel a gyflwynwyd	2,400
Nifer y PCN a dalwyd	13,845
Nifer y PCN a dalwyd am bris gostyngol	11,868
Nifer y PCN lle cafwyd datrysiad anffurfiol neu ffurfiol	5,696
Nifer y PCN a ddiddymwyd oherwydd datrysiad anffurfiol neu ffurfiol llwyddiannus	2,113
Nifer y PCN a ddiddymwyd oherwydd rhesymau eraill (e.e. camgymeriad CEO neu fethu dod o hyd i'r gyrrwr	828
Nifer y cerbydau a ataliwyd	DIM
Nifer y cerbydau a symudwyd	DIM

## 7. Datblygiadau yn y Dyfodol

- 7.1 Cymeradwywyd achos busnes i gynyddu nifer y Swyddogion Gorfodi Sifil a staff y swyddfa gefn. Mae'r achos busnes wedi nodi na fyddai'r cynnydd hwn mewn staff yn costio unrhyw beth i'r cyngor. Bydd y cynnydd mewn adnoddau'n sicrhau bod gorfodi drwy ardal y Ddinas a'r Sir yn cael ei gyflwyno'n gyson ac yn gwella gallu'r cyngor i reoli llif y traffig a gwella diogelwch ffordd.
- 7.2 Yn ogystal, byddwn yn gwerthuso gorfodi camerâu er mwyn gorfodi mewn ardaloedd o bryder h.y. arosfannau bysus ac ysgolion lle mae presenoldeb swyddog ond yn atal parcio pan eu bod yn bresennol.
- 7.3 Caiff addewid Cynulliad Cymru i gyflwyno deddfwriaeth i alluogi'r cyngor i orfodi lonydd bysus a chyffyrdd blwch ei monitro'n agos wrth i'r cyngor ystyried y pwerau hyn yn gysylltiad hanfodol i'r strategaethau yn y Cynllun Trafnidiaeth Lleol.